

## Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw ag Ann Owen (Llansannan) a'r teulu ym marwolaeth ei mam, Mrs Mair Morris. Gweddiwn y byddwch yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drosoch yn eich galar a'ch hiraeth am un mor annwyl. Cofiw'n am eraill o'n plith sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf hefyd, ac fe'ch cyflwynwn chwithau yn dyner i ofal yr Arglwydd.

Anfonwn ein cofion heddiw at Falmai Evans (Saron) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, fel ag y mae Richard M. Jones (Cefn Berain). Cofiw'n hefyd am Dafydd Timothy (Cefn Meiriadog) yn dilyn ei lawdriniaeth yn ystod yr wythnos. Mae ambell un arall ohonoch wedi gorfod ymweld â'r adran frys yn yr ysbyty yn ddiweddar hefyd ond da deall na fu'n rhaid i chi gael gofal pellach. Balch ydym o glywed fod Trefor Roberts (Llansannan) a Nest Efans (Hiraethog) wedi dod adref wedi cyfnod yn yr ysbyty. Diolchwn am bob gofal a gawsoch a gweddiwn y byddwch yn cael eich gwarchod a'ch cynnal wrth i chi gryfhau dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn. Mae eraill sy'n addoli hefo ni yn y Fro wedi bod mewn gwahanol ysbytai yn ddiweddar hefyd. Fe'ch cyflwynwn oll i ofal Duw gan hyderu y bydd yn gwrando'n gweddiâu am wellhad buan iawn i bob un ohonoch.

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Gwion Evans (Llansannan) ac Elain fydd yn priodi yn Llansannan ddiwedd y mis hwn. Gweddiwn y bydd yn ddiwrnod cofiadwy i chi, ac y byddwch yn profi bendithion lu i'r dyfodol.

### Gwerthfawrogiad

Bydd nifer ohonoch wedi clywed bod y Parch. Meirion Morris yn ymddeol diwedd mis Mehefin eleni a hynny ar ôl deng mlynedd o wasanaeth fel Ysgrifennydd Cyffredinol a Chyfarwyddwr Gweinidogaethau Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Er mwyn dangos gwerthfawrogiad o'i wasanaeth, derbyniwyd neges yn gwahodd pwy bynnag sy'n dymuno gwneud hynny i gyfrannu tuag at rodd y bwriedir ei chyflwyno i Meirion fel arwydd o'n diolchgarwch am ei wasanaeth. Os hoffech fel eglwys neu fel unigolyn gyfrannu tuag at y gronfa honno, a fyddwch mor garedig ag anfon sieciau (yn daladwy i Eglwys Bresbyteraidd Cymru, gyda'r geiriau 'Rhodd Meirion' ar y cefn) i Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Capel Tabernacl, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1DD **erbyn dydd Gwener, 17 Mehefin 2022**, os gwelwch yn dda. Y bwriad yw cyflwyno'r rhodd i Meirion yn ystod y Gymanfa Gyffredinol eleni. (Os byddwch yn dymuno cyfrannu dros y we, plis cysylltwch â Mair i gael y manylion banc.)

# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 24 Ebrill 2022

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

Ers rhai wythnosau mae canol Llansannan yn edrych yn wahanol iawn i'r arfer! O ganlyniad i'r gwaith atal llifogydd, ymddangosodd goleuadau traffig ar y groesffordd a thwll mawr yn y ffordd. Ni fu hyn yn syndod i drigolion y pentref gan ein bod wedi derbyn rhybudd gan y cwmni sy'n gyfrifol am y gwaith. Ac yn ddiweddar cawsom fwy fyth o wybodaeth yn esbonio'r cynllun a pha ffyrdd fydd ar gau dros y misoedd nesaf. Bydd hyn yn siŵr o darfu ar nifer gan achosi dryswch i yrwyr, ond mae hynny i'w ddisgwyl ac yn bris gwerth ei dalu os yw'n golygu gwarchod tai pobl am ddegawdau i ddod. Dyna ydw i'n ddweud ar hyn o bryd, mae'n bosib y byddaf wedi newid fy nghân ar ôl bod yn sownd mewn traffig am fisoedd!

Un peth yw gwybod am newidiadau i ddod, peth arall yw byw yng nghanol yr amgylchiadau newydd. A dyna brofodd disgyblion Crist wedi'r atgyfodiad. Er iddynt gael eu paratoi gan Iesu ar gyfer cyfnod newydd (gw. Ioan 14-17), gallaf ddychmygu bod y profiad o ddilyn Crist wedi'r atgyfodiad yn gyffrous ac yn ddryslud yr un pryd. Efallai bod rhai ohonynt yn tybio bod bywyd braf a didrfferth o'u blaenau, ond nid dyma'r realiti. Yn fuan iawn wynebodd y disgyblion wrthwynebiad, camdriniaeth, ac yn achos Steffan ac Iago, marwolaeth. Ac yn Actau 14:22 gwelwn yr apostolion yn annog Cristnogion newydd i lynu wrth y ffydd gan ddweud: "Trwy lawer o gyfyngderau yr ydym i fynd i mewn i deyrnas Dduw."

Tybed beth yw'n profiad a'n disgwyliadau ni o ddilyn Crist heddiw? Efallai ein bod yng nghanol sefyllfa anodd ac yn brwydro i wneud synnwyr o'r cyfan, neu'n methu gweld ymhellach na'r dryswch presennol. Ond cofiwch fod buddugoliaeth y Pasg nid yn unig yn gysur ond yn rhoi adnoddau angenrheidiol i'r Cristion fedru dygymod ag amrywiol drafferthion. Oherwydd, fel yn achos yr apostolion, mae gennym ni'r un newyddion da am Iesu i'w gredu a'i rannu ag eraill:

*'Ond dyma Duw yn ei godi yn ôl yn fyw a'i ollwng yn rhydd o grafangau marwolaeth. Roedd yn amhosib i farwolaeth ddal gafael ynndo!'* (Actau 2:24)

Mae Iesu'n fyw, yn teyrnasu, ac yn gweinidogaethu i'w bobl heddiw. Nid yw'r Bugail Da wedi anghofio'i braidd, ac ni chaiff neb eu cipio hwy allan o'i law. (Ioan 10:28) Beth bynnag yw'n gofidiau neu'n amheuan, cofiw'n fod Iesu wedi cael y gorau ar bechod, marwolaeth a'r diafol trwy Ei farw aberthol a'i atgyfodiad. Ac wrth ymddiried yng Nghrist, cawn ninnau hefyd, fel yr apostolion, dderbyn o'i Ysbryd Glân i'n nerthu i fod yn dystion iddo ym Mro Aled, Cymru a hyd eithaf y ddaear!

*Rhodri*



## Cyhoeddiadau'r Fro

Gair i'ch atgoffa bod rhaid i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau sydd mewn lle ymhob capel i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd un ai yn dioddef hefo'r feirws neu sydd ag unrhyw un o'r symptomau.

### Dydd Sul, Ebrill 24<sup>ain</sup>

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac yn **Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac yng **Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad Mr Alun Jones.
- **Ysgol Sul yn Llanefydd** ac yn **Henllan** am 10:00.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Mae'n addas i bob oed, ac mae darpariaeth dwyieithog. Archebwch le trwy gysylltu â Mair.

### Dydd Sul, Mai 1<sup>af</sup>

- **Bore Bro Aled** yn Llansannan am 10:30. Bydd yr oedfa hefyd yn cael ei darlledu'n fyw o'r capel ac ar gael i chi wrando arni unrhyw bryd wedi i'r darllediad ddod i ben. (I ymuno, ewch i wefan Eglwys Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Bore Bro Aled' fydd ar y dudalen flaen.)

### Dydd Sul, Mai 8<sup>fed</sup>

- **Oedfa yn Saron** am 10:00 o dan arweiniad Mr Arawn Glyn.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Llanfair** am 10:00.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol Undebol yn Eglwys Llansannan** am 11:00.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 a chinio cynnil i ddilyn. Fe wneir casgliad tuag at waith Cymorth Cristnogol.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Nantglyn** am 2:00.
- **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghapel Llanefydd** am 2:00.
- **Ysgol Sul yn Henllan** am 10:00 a **Gwasanaeth Cymorth Cristnogol (Undebol)** yn y Capel am 2:00.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

## I ddod

- ⇒ **MIRI MAI (8–11 OED)** yng Ngholeg y Bala (Mai 20-22). Penwythnos llawn hwyl – padlfyrddio, kayakio, disgo tawel, ffynnon siocled, chwaraeon, crefft, gemau, canu a storïau o'r Beibl. Y gost yw £66 yr un (neu £33 i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu), ac mae'n cynnwys y llety, bwyd a'r holl weithgareddau. **Cofiwch bod Eglwys Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob plentyn.** Archebwch le trwy glicio ar y ddolen [yma](mailto:yma), neu os na allwch archebu lle arlein neu bod gennych gwestiwn, ffoniwch 01678 520565 neu ebostiwch [colegybala@ebcpcw.cymru](mailto:colegybala@ebcpcw.cymru).
- ⇒ **YSGOL HAF Y WEINIDOGAETH IACHAU** (Mai 23-26) yng Nghanolfan Cefn Lea, Dolfor, Y Drenewydd, Powys, SY16 4AJ. Ni sicheir lle oni fydd y tâl llawn gan Nerys Rowlands, Ysgrifenyddes y Weinidogaeth Iachau **erbyn Ebrill 24ain**. Os hoffech fynychu'r Ysgol Haf eleni, cysylltwch â Mair i gael copi o'r rhaglen a ffurflen gofrestru.

### Casgliad Cenhadol Merched y Gogledd (EBC)

Diolch am eich cyfraniadau eto eleni tuag at gasgliad blynyddol merched Eglwys Bresbyteriaid Cymru er mwyn cefnogi gwaith cenhadol yn lleol a thramor. Mae cyfanswm o £480 wedi ei anfon o Fro Aled.

### Dathliad Cenhadol Merched y Gogledd

Cynhelir Dathliad Cenhadol Merched y Gogledd yng Nghapel Disgwylfa, Gaerwen (LL60 6DN) **dydd Mercher, Mai 4<sup>ydd</sup>** am 2:00. Y siaradwraig wadd fydd Dr Rhiannon Ifans, Aberystwyth a bydd yn siarad ar y thema Gobaith yn Iesu: 'Yr Alfa a'r Omega'. Croeso cynnes i bawb. (Sylwch mai un cyfarfod fydd yn cael ei gynnal eleni.)

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (4<sup>ydd</sup>), os gwelwch yn dda.